**Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Dolau**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 30 Medi 2024 |
| **Amser** | 15:45 |
| **Lleoliad** | Ysgol Gynradd Dolau |

| **Presenoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Andrea Richards | AR | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Tim Britton | TB | Pennaeth Cyflawniad |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Prosiect Cynorthwyol yr 21ain Ganrif |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau gan Aelodau o Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu**

   Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Dolau i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl dilynol.

| Nifer | Cwestiwn/Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Pam ydych chi'n meddwl y byddai rhannu Ysgol Gynradd Dolau yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg? Bod yn ysgol gynradd ddwy iaith yw cryfder Ysgol Gynradd Dolau. | Mae data CYBLD yn dangos bod ffrwd cyfrwng Saesneg Ysgol Gynradd Dolau yn fwy na'r ffrwd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Er mwyn darparu ar gyfer dewis rhieni/gwarcheidwaid ac i gydymffurfio â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (005/2013), mae modd i nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Saesneg arwain at lai o gapasiti cyfrwng Cymraeg nad oes modd ei ddiogelu o dan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (005/2013), mewn ysgolion dwy iaith. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pe bai Ysgol Gynradd Dolau yn parhau i fod yn ysgol gynradd ddwyieithog, ni fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn cyrraedd y targedau a gaiff eu nodi yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) nac yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| 2. | Pam ysgol Gymraeg newydd pan fo niferoedd Ysgol Gynradd Dolau yn dangos gostyngiad yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg? | Mae twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn darged strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Cyngor. Pe bai'r ysgol newydd yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, fyddai'r Cyngor ddim yn cyrraedd ei dargedau a gaiff eu nodi yn y CSGA na'n cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| 3. | A fyddai'r Cyngor yn edrych ar dderbyniadau traws-sirol? | Bydd derbyniadau i'r ysgol newydd, fel gyda phob ysgol, yn cael eu hymgymryd â nhw yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (005/2013); ac yn unol â hyn, lle mae lle, mae modd i ddisgyblion 'tu allan o'r sir' fynychu ysgolion yn Rhondda Cynon Taf. |
| 4. | Mae digon o gapasiti yn y tair ysgol a grybwyllir yn y Ddogfen Ymgynghori – o ble mae'r ffigurau'n dod i ddangos y galw sy'n cyfiawnhau gwerth £15 miliwn am ysgol newydd. Dylai'r Cyngor edrych ar ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol sydd â chapasiti. | Mae capasiti mewn ysgolion cyfagos eraill, er nid yw'r ysgolion yma yn nalgylch y datblygiad newydd.<br><br>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli capasiti ei ysgolion yn effeithiol. Mae lleoedd, capasiti, derbyn a rhagamcanion ysgolion yn cael eu craffu'n barhaus.<br><br>Rhaid cynnwys gwybodaeth am gapasiti pob ysgol sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig ym mhob dogfen ymgynghori yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018).<br><br>Mae gwybodaeth am gapasiti'r holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr effeithir arnyn nhw gan y cynnig wedi'i |

| | | |
|---|---|---|
| | | chynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Tra bod gwybodaeth am gapasiti'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos yn cael ei dangos yn yr Adroddiad Ymgynghori. |
| 5. | Faint o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf sydd â gormod o geisiadau? | *Gweler yr ateb i gwestiwn 4.* |
| 6. | Bydd angen mwy o athrawon ar gyfer twf, ond bydd y niferoedd yn isel ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg os yw rhieni/gwarcheidwaid yn dewis aros yn Ysgol Gynradd Dolau waeth beth fo'u haddysg Saesneg neu Gymraeg. A fydd swyddi yn ddiogel yn yr adran cyfrwng Cymraeg? | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ein bwriad yw argymell i Gorff Llywodraethu dros dro yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Dolau, fod unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i sefydlu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, islaw lefel uwch arweinwyr, yn cael eu clustnodi i'r staff presennol a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Gynradd Dolau yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, bydden nhw'n trosglwyddo pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith.<br><br>Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Bydd Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gynradd Dolau a'u gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael. |
| 7. | Efallai na fydd swydd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd os oes capasiti isel – ble fydd aelodau o staff yn mynd wedyn? | *Gweler yr ateb i gwestiwn 6.* |
| 8. | Beth fydd yn digwydd i aelodau o staff sy'n cael eu cyflogi yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau? | *Gweler yr ateb i gwestiwn 6.* |
| 9. | Beth yw'r cynllun ar gyfer y dyfodol agos? | Cyn pen blwyddyn i agor yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, bydd Pennaeth a Chorff Llywodraethu dros dro yn cael eu sefydlu. |
| 10. | Pam na allai Ysgol Gynradd Dolau aros yn ysgol dwy iaith? | Bydd agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg benodedig newydd nid yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn cynyddu'r cynnig addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, ond hefyd yn diogelu'r lleoedd hynny i ddisgyblion addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, nad yw'n wir mewn ysgol ddwyieithog.<br><br>Yn ogystal â hyn, pe bai'r ysgol newydd yn ysgol gynradd ddwyieithog, ni fyddai'r Cyngor yn cyrraedd ei dargedau a gaiff eu nodi yn y CSGA na'n cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel y nodir yn nogfen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| 11. | Bydd hyn yn rhwygo calon Ysgol Gynradd Dolau, a hynny'n syml drwy ganolbwyntio ar iaith. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd weithio mewn partneriaeth i sicrhau nad yw hanes Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei anghofio.<br><br>Mae hwn yn syniad gwych ar gyfer prosiect ysgol a'r gymuned a bydd hwn yn cael ei fwydo yn ôl i staff yr ysgol. |
| 12. | Nid yw hyn yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae angerdd yn Ysgol Gynradd Dolau a'r gymuned, a gallai'r ysgol gynradd Gymraeg newydd ddarparu ar gyfer symudiad naturiol i fod yn 100% addysg cyfrwng Cymraeg pe bai galw. | Wedi'i nodi. |
| 13. | A fydd y Cyngor yn diogelu swyddi, neu a fydd angen i ni ailymgeisio am ein swyddi ein hunain? | *Gweler yr ateb i gwestiwn 6.* |
| 14. | Yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, nodwyd bod yr ysgol newydd yn un cyfrwng Cymraeg ond yn estyniad i Ysgol Gynradd Dolau cyfrwng Saesneg – a yw hyn yn dal yn opsiwn, gyda'r un Uwch Garfan Reoli? | *Gweler yr ateb i gwestiwn 2.* |
| 15. | Yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, nodwyd bod yr ysgol newydd yn un cyfrwng Cymraeg ond yn estyniad i Ysgol Gynradd Dolau cyfrwng Saesneg – byddai hyn yn diogelu swyddi yn y cyfamser. | *Gweler yr ateb i gwestiwn 6.* |
| 16. | Nid oes llawer o amser i staff edrych ar gyfleoedd eraill. | *Gweler yr ateb i gwestiwn 6.* |
| 17. | Pryd fydd staff yn gwybod am yr amserlenni? | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, y cynnig yw y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | y flwyddyn academaidd 2027, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd. |
| 18. | A fydd ad-drefnu staff Ysgol Gynradd Dolau yn digwydd cyn neu ar ôl sefydlu'r Corff Llywodraethu newydd? | Bydd y Cyngor yn edrych ar ba fesurau lliniaru y mae modd eu rhoi ar waith ar gyfer risgiau sy'n wynebu staff yn Ysgol Gynradd Dolau o ganlyniad i'r cynnig yma.<br><br>*Gweler yr ateb i gwestiwn 6 hefyd.* |
| 19. | Beth fydd yn digwydd os bydd yr holl staff presennol yn dewis aros yn Ysgol Gynradd Dolau i gael sicrwydd swydd? | Mae niferoedd saff yn dibynnu ar niferoedd disgyblion, ac wrth gwrs, gallai staff aros yn Ysgol Gynradd Dolau. Yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd, byddai cyfleoedd i staff mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi agor tair ysgol newydd yn ddiweddar, ac roedd yr holl staff yn effro i ddiweddariadau, ac yn gwybod ymlaen llaw i wneud unrhyw benderfyniadau a oedd orau iddyn nhw'n bersonol. Mae'r Cyngor yn deall bod angen tawelwch meddwl ar bobl a bod modd i gyfnodau o newid beri pryder.<br><br>*Gweler yr ateb i gwestiwn 6 hefyd.* |
| 20. | Yn seiliedig ar y Ddogfen Ymgynghori, mae'r Cyngor yn meddwl bod lle i 480 o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg gyda chapasiti mwy o 488 ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol (derbyn i flwyddyn chwech) ynghyd â lle i 63 ar gyfer disgyblion oed meithrin. |
| 21. | Ar hyn o bryd, mae nifer y disgyblion yn ffrwd cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Dolau yn gostwng. O ble fydd y disgyblion ychwanegol yn dod a sut y caiff aelodau o staff eu hamddiffyn? | Bydd y cynnig yn sicrhau bod y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd Cymraeg a Saesneg, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni. |
| 22. | Os oes dwy ysgol yna mae dwy gyllideb – efallai na fydd y gyllideb yn diogelu'r staff yn y flwyddyn gyntaf. | Bydd cyllideb ddigonol i gefnogi niferoedd disgyblion ym mhob ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion ar hyn. |
| 23. | A oes niferoedd rhagamcanol ar gyfer yr ysgol newydd? | Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli capasiti ei ysgolion yn effeithiol. Mae lleoedd, capasiti, derbyn a rhagamcanion ysgolion yn cael eu craffu'n barhaus. Mae hwn yn gyfrifoldeb statudol a bydd yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd. |
| 24. | Mae hwn yn newid mawr i staff a allai symud ysgolion a gweithio dan reolaeth | *Gweler yr ateb i gwestiwn 6.* |

| | | |
|---|---|---|
| | nad ydyn nhw'n hapus ag ef. Gallai'r cynnig yma arwain at ddwy ysgol lai llwyddiannus na'r Ysgol Gynradd Dolau bresennol. | |
| 25. | Nid yw rhannu cyfleusterau rhwng ysgolion yn gweithio. | Mae gan y Cyngor brofiad o ysgolion yn rhannu cyfleusterau yn llwyddiannus. Mae croeso i aelodau'r Corff Llywodraethu a staff Ysgol Gynradd Dolau weld hyn yn uniongyrchol. |
| 26. | Nid oes llwybr rhwng y ddwy ysgol, sy'n golygu nad oes unrhyw gysylltedd. Mae'r cynnig yma'n gadarnhaol i'r Cyngor, ond nid ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'r Cyngor yn credu y mae modd creu llawer o gyfleoedd cadarnhaol.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd weithio mewn partneriaeth mewn llawer o feysydd. |
| 27. | Mae hwn yn brofiad anodd i bobl. | Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb tuag at ein staff i wneud y broses mor ddi-dor â phosibl.<br><br>*Gweler yr ateb i gwestiwn 6 hefyd.* |
| 28. | A fydd Corff Llywodraethu newydd, neu'r Corff Llywodraethu presennol yn gwneud penderfyniadau? | Bydd Corff Llywodraethu dros dro newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol gynradd Gymraeg newydd. Byddai Corff Llywodraethu presennol Ysgol Gynradd Dolau yn aros fel y mae. |
| 29. | A fydd gan y Pennaeth newydd ddewis o ran pwy a gaiff eu penodi? | Y Corff Llywodraethu sy'n penodi staff. Mae penodiad Pennaeth yn swydd statudol, ac felly bydd yn cael ei hysbysebu'n allanol. |
| 30. | A fydd y Corff Llywodraethu yn edrych ar y staff presennol yn gyntaf, neu a fyddan nhw'n edrych yn allanol? | Dyma benderfyniad y Corff Llywodraethu. Yn hanesyddol, gwnaed argymhellion i glustnodi swyddi lle bo modd. Serch hynny, does dim modd gwarantu unrhyw beth. |
| 31. | Bydd Undebau Llafur yn cynrychioli buddiannau staff ac yn gwneud argymhellion i'r Corff Llywodraethu ar gyfer neilltuo swyddi ar gyfer staff presennol. | Wedi'i nodi.<br><br>*Gweler yr ateb i gwestiwn 6 hefyd.* |
| 32. | Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. | Mae hwn yn gamgymeriad, a bydd y Cyngor yn adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff y bydd cyfle iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd, a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen dros yr wythnos nesaf.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10